Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun

Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Lles a Diogelu yn ystod Pandemig Covid-19

Sut a Pham Rydyn Ni'n Defnyddio Gwybodaeth Bersonol at Ddibenion Lles a Diogelu yn ystod Pandemig Covid-19

Pam rydyn ni'n rhannu gwybodaeth am ddisgyblion

Yn yr hysbysiad preifatrwydd yma, rydyn ni wedi crynhoi rhai o'r ffyrdd allweddol rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i sicrhau lles a diogelwch ein disgyblion yn ystod y pandemig Covid-19. Dylech chi ddarllen yr wybodaeth yma yn ogystal â hysbysiad preifatrwydd cyffredinol ein hysgol.

O ran materion lles a diogelu'r plentyn, mae'n bosibl y bydd hi'n angenrheidiol i rannu gwybodaeth heb yn wybod i chi.

Mae'r categorïau o wybodaeth am ddisgyblion rydyn ni'n eu casglu, eu cadw a'u rhannu yn cynnwys:

- Gwybodaeth bersonol (er enghraifft, enw, dyddiad geni a chyfeiriad)
- Manylion yr alwad lles / diogelu megis dyddiad, amser, y person y cysylltwyd ag ef ac unrhyw nodiadau o'r sgwrs
- Categori Arbennig (er enghraifft, ethnigrwydd, iechyd, iaith, cenedligrwydd, gwlad geni, cyfeiriadedd rhywiol)
- Manylion am gyfranogiad blaenorol gan adrannau yn yr Awdurdod Lleol (e.e. Gwasanaethau Plant, Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc, ac ati)

- Gwybodaeth am y rhesymau dros bryder sydd wedi achosi'r atgyfeiriad diogelu - mae modd i hyn gynnwys unrhyw wybodaeth briodol y mae'r gweithiwr proffesiynol sy'n gwneud yr atgyfeiriad yn credu sy'n berthnasol

Pam rydyn ni'n casglu ac yn defnyddio'r wybodaeth yma

Rydyn ni'n defnyddio data am ddisgyblion:

- Er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion ysgol trwy gyfeirio at asiantaethau allanol fel yr Awdurdod Lleol, yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) neu'r heddlu ar gyfer plant / pobl ifainc sydd, o bosibl, mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu o ddioddef mathau eraill o niwed.

Mae'n bosibl bydd yr wybodaeth rydyn ni'n yn ei chasglu, ei dal a'i rhannu am y rhiant / cynhaliwr, aelodau eraill o'r teulu a'r unigolyn / unigolion sy'n peri pryder gynnwys y categorïau canlynol:

- Gwybodaeth bersonol (er enghraifft, enw, dyddiad geni a chyfeiriad)
- Manylion cyswllt gan gynnwys rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost
- Perthynas â'r plentyn/person ifanc
- Hawl gyfreithiol i weld y plentyn ac unrhyw orchmynion llys sy'n nodi'r hawliau o ran hynny
- Ymyrraeth y Gwasanaethau Cymdeithasol â theuluoedd.

Pam rydyn ni'n casglu ac yn defnyddio'r wybodaeth yma

Rydyn ni'n defnyddio data am rieni/cynhalwyr:

- I allu cysylltu â nhw mewn perthynas â darpariaeth addysg y disgybl a hefyd mewn achos o argyfwng
- Er mwyn trefnu gwasanaethau gan sefydliadau eraill, megis yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth, yr Awdurdod Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol.

Casglu gwybodaeth am ddisgyblion - gan bwy rydyn ni'n cael ein data

Er bod y mwyafrif o'r wybodaeth am ddisgyblion rydych chi'n ei rhoi i ni yn orfodol, mae rhywfaint ohoni yn cael ei rhoi i ni yn wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi a yw'n ofynnol i chi roi gwybodaeth benodol i ni am ddisgyblion, neu a oes dewis gyda chi yn hyn o beth.

Yn achos mater diogelu byddwn ni'n cael ein data gan:

- Rhieni / cynhalwyr a'r disgyblion eu hunain (os yw'n briodol)
- Unrhyw berson perthnasol sydd â phryderon ynghylch diogelu

Sylwch bydd yr wybodaeth yma yn cael ei chasglu trwy alwadau ffôn i'r cartref gan weithiwr proffesiynol priodol o'r ysgol. Bydd amlder y galwadau ffôn yma'n amrywio o fod yn rhai dyddiol i rai wythnosol gan ddibynnu ar anghenion y disgybl

Gyda phwy rydyn ni'n rhannu gwybodaeth am ddisgyblion

Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth am ddisgyblion gyda'r canlynol:

- Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yw'r un man cyswllt ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sydd am adrodd pryderon diogelu, ar draws Cwm Taf. Mae Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yn cynnwys staff o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, staff Addysg, yr Heddlu, staff Iechyd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- Gwasanaethau Brys
- Unrhyw berson perthnasol sydd â phryderon ynghylch diogelu (os yw'n briodol)
- Rhieni / cynhalwyr (mewn rhai achosion, mae rhieni / cynhalwyr yn cael gwybod bod atgyfeiriad wedi'i wneud neu lle mae atgyfeiriad Hwb Diogelu Amlasiantaeth lefel is yn briodol, ond does dim pryder ynghylch diogelu, ceir caniatâd gan rieni / cynhalwyr)
- Awdurdod Lleol RhCT yn uniongyrchol (e.e. Gwasanaethau i Oedolion neu Gwasanaethau i Blant)

Bydd yr ysgol yn defnyddio System Gwybodaeth Reoli a allai gynnwys defnyddio prosesydd 3ydd parti.

I gael gwybodaeth am Hysbysiad Preifatrwydd sy'n ymwneud â'r sefydliadau uchod, ewch i dudalennau diogelu data eu gwefannau.

Y sail gyfreithlon ar gyfer ein defnydd o'r wybodaeth yma

Mae deddfwriaeth Diogelu Data'r DU wedi'i nodi yn Neddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Mae deddf Diogelu Data yn dweud ein bod ni'n cael defnyddio a rhannu gwybodaeth bersonol dim ond lle mae gyda ni reswm priodol a chyfreithlon dros wneud hynny.

Dyma ein seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol at ddibenion diogelu:

- **Rhwymedigaethau Cyfreithiol**- cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014
- **Cydsyniad** - lle mae hi'n briodol gwneud atgyfeiriad i'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth, ond does dim pryder ynghylch diogelu, ceir caniatâd gan rieni / gwarcheidwaid. Bydd yr ysgol yn gofyn am eich caniatâd penodol i gasglu a phrosesu'r wybodaeth. Byddwch chi bob amser yn cael cyfle i dynnu'n ôl o'r broses yma trwy gysylltu â ni.

Storio a gwaredu data personol

Rydyn ni'n cadw data am ddisgyblion yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u nodi yn y Rhestr Gadw sydd yn rhan o'r Pecyn Cymorth **Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion (IRMS) ar gyfer Ysgolion**.

Ar ôl i'r cyfnod cadw ddod i ben, bydd gwybodaeth yn cael ei dinistrio'n ddiogel ac yn barhaol.

Eich hawliau a sut i wneud cais i weld eich data personol

Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn rhoi hawliau pwysig i chi. I ddarganfod rhagor am gael mynediad at ddata personol a'ch hawliau eraill, ewch i hysbysiad preifatrwydd cyffredinol ein hysgol.

Cyswllt

Hoffech chi drafod unrhyw faterion sydd yn yr hysbysiad preifatrwydd yma? Os felly, cysylltwch â'n Prif Swyddog Diogelu Data – ysgol@rhydywaun.org

Cymeradwywyd gan: Y Corff Llywodraethu **Dyddiad:**4-5-20

_____

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Tymor y Gwanwyn 2021